***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 1

## ADOLYGIADAU CYCHWYNNOL O DREFNIADAU ETHOLIADOL ETC.

*Pŵer i wneud rheoliadau pan na wneir unrhyw argymhellion*

10 (1) Os nad yw'r Comisiwn wedi cyflwyno adroddiad terfynol i Weinidogion Cymru o dan baragraff 8(3) erbyn y dyddiad a bennir yn y cyfarwyddyd sy'n ei gwneud yn ofynnol cynnal yr adolygiad cychwynnol, caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan is-baragraff (2).

(2) Caiff rheoliadau o dan yr is-baragraff hwn wneud y ddarpariaeth y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol o ran y trefniadau etholiadol ar gyfer yr ardal sy'n cael ei hadolygu ac unrhyw ddarpariaeth y maent yn ystyried ei bod yn briodol ar gyfer newidiadau canlyniadol perthnasol.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru, wrth iddynt ystyried y trefniadau etholiadol ar gyfer ardal sy'n cael ei hadolygu at ddiben gwneud rheoliadau o dan is-baragraff (2), wneud y pethau a nodir ym mharagraff 5(1)(a) a (b) (ac mae paragraff 5(2) a (4) yn gymwys yn unol â hynny).

(4) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ddarparu unrhyw wybodaeth y maent yn ystyried ei bod yn briodol neu unrhyw ddogfennau y maent yn ystyried eu bod yn briodol iddynt mewn perthynas ag unrhyw faterion sydd wedi dod i sylw'r Comisiwn o ganlyniad i—

(a) unrhyw gamau a gymerwyd o dan baragraff 6,
(b) unrhyw ymchwiliad o dan baragraff 7,
(c) llunio adroddiad o dan baragraff 7 neu 8, neu
(d) unrhyw beth arall a wnaed wrth gynnal yr adolygiad cychwynnol.